

ANNIBYNNIAETH MAE'N BOSIBL!

Yes
cymru

1. Onid yw Cymru yn rhy fach i fodoli fel gwlad annibynnol?

Nid yw Cymru, gwlad o 3 miliwn o bobl, yn rhy fach i fodoli fel gwlad annibynnol. Mae'n ffaith fod **dros 100 o wledydd eraill annibynnol** yn y byd sy'n llai na Chymru. O'r 10 gwlad gyfoethocaf o ran GDP y pen, mae **gan bob un boblogaeth sy'n llai na 10 miliwn**, mae gan 5 ohonynt boblogaeth sy'n llai na 5 miliwn, a 4 ohonynt boblogaeth sy'n llai na Chymru.

O wledydd yr UE, mae **8 o'r 10 mwyaf ffyniannus yn wledydd bychain**. Nid yw ffyniant economaidd bellach yn cael ei sicrhau trwy fod yn wlad fawr neu yn ymerodraeth, na thrwy ddefnyddio grym milwrol i gyrraedd marchnadoedd. **Nid oes cysylltiad bellach rhwng maint gwlad a'i llwyddiant economaidd.**

2. Rydym ni'n gryfach gyda'n gilydd - pam chwalu Prydain?

Rydym eisiau bod yn **rhan lawn o'r gymuned ryngwladol**. Byddai Cymru annibynnol yn dal yn gymydog i wledydd eraill y Deyrnas Gyfunol. Bydd **cysylltiadau cryf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn parhau** rhwng pobl gwledydd y DG. Y gwahaniaeth ydy y byddwn yn bartner llawn i'r gwledydd eraill gyda'n llais cryf ein hunain. Bydd hyn yn gwneud y berthynas yn gryfach.

3. Mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn teimlo'n Gymry a'n Brydeinwyr - fyddan nhw byth yn cefnogi annibyniaeth.

Yn y byd modern mae'n anorfod y bydd gan bobl yng Nghymru mwy nag un hunaniaeth. **Peth personol yw hunaniaeth sydd ar wahân i faterion atebolrwydd democrataidd**. Nid yw eich hunaniaeth bersonol, o reidrwydd, yn golygu eich bod yn cefnogi ffordd arbennig o gael eich llywodraethu.



www.yes.cymru



[@YesCymru](https://twitter.com/YesCymru)



[YesCymru](https://www.facebook.com/YesCymru)

ANNIBYNNIAETH MAE'N BOSIBL!

Yes
cymru

4. Oni fyddai diffyg cyllidebol Cymru yn rhy fawr iddi ymdopi?

Mae gan y Deyrnas Gyfunol un o'r diffyg cyllidebol mwyaf ar hyn o bryd yn y byd datblygedig. Mae'r ddadl fod Cymru yn derbyn mwy mewn gwariant cyhoeddus nag sy'n cael ei dalu mewn trethi yn aml yn cael ei weld fel prawf na all Cymru dalu ei ffordd. Pan ystyriwch ddiffyg y Deyrnas Gyfunol gyfan **nid yw'r ddadl hon yn dal dŵr**. Mae sawl her economaidd anodd yn wynebu Cymru wrth gwrs. Mae GVA Cymru tua 72.9% o gyfartaledd y DG (2017). Yr her i'r sawl sy'n gwrthwynebu annibyniaeth ar y sail na all Cymru ei fforddio yw **esbonio sut y mae bod yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol wedi arwain at y sefyllfa economaidd wan hon**.

5. Does dim ots gan bobl am annibyniaeth. Mae'n tynnu sylw oddi wrth bynciau sydd wirioneddol o bwys i bobl.

Ein cred ni yw fod **annibyniaeth i bobl Cymru yn ganolog i economi a chymdeithas ffyniannus**. Mae ansawdd gwasanaethau lleol, sicrwydd swyddi, tai fforddiadwy ac ati yn faterion sy'n effeithio ar fywydau pob un ohonom. Mae'n well o lawer mai Llywodraeth Gymreig etholedig ac atebol sy'n ymdrin â hwy.

6. Mae annibyniaeth yn amherthnasol yn y byd modern.

Mae rhyng-ddibyniaeth gwledydd yn un o ffeithiau bywyd modern. Rydym eisiau chwarae ein rhan yn y gymuned ryngwladol. Fel y dywedodd Winnie Ewing o'r SNP, *'Stop the World, we want to get on'*. Mae globaleiddo nid yn unig yn gwneud **Cymru annibynnol yn berthnasol - ond yn ei gwneud yn fwy posibl**.

Byddai Cymru annibynnol yn dod yn aelod llawn o'r sefydliadau byd-eang a byddai bod yn rhan o **economi byd-eang yn rhoi cyfle i Gymru ffynnu**.

Ymunwch â Ni - www.yes.cymru/ymuno



www.yes.cymru



@YesCymru



YesCymru